

Adroddiad ar gyfer	Y Panel Gweithredol
Dyddiad	22 Hydref 2018
Swyddog Arweiniol	Shân Morris, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Polisi a Chynlluniau Corfforaethol)
Swyddog Cyswllt	Pippa Hardwick – Rheolwr Cynllunio Corfforaethol (03303 132 683)
Pwnc	Rheoli Risgiau Strategol



PWRPAS YR ADRODDIAD

- 1 Rhoi crynodeb i'r aelodau o gynnwys cofrestr risgiau strategol yr Awdurdod, a hynny yn unol â'r Polisi Rheoli Risgiau Strategol.

CRYNODEB GWEITHREDOL

- 2 Mae cofrestr risgiau strategol yr Awdurdod yn rhestru risgiau hysbys a allai atal yr Awdurdod rhag cael y canlyniadau a gynlluniwyd a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd. Mae cofnodion ar y gofrestr yn cael sgoriau risgiau sy'n cael ei hail-werthuso'n rheolaidd gan y swyddogion er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol a'r effaith a ragwelir drwy gynllunio gwrth-fesurau.

ARGYMHELLIAD

- 3 Bod yr aelodau'n nodi'r risgiau strategol hysbys sy'n wynebu'r Awdurdod.

CEFNDIR

- 4 Mae Polisi Rheoli Risgiau Strategol yr Awdurdod yn diffinio risg strategol fel "digwyddiad a fyddai'n effeithio ar y gallu i wireddu canlyniadau y mae'r Awdurdod wedi'u cynllunio a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd".
- 5 Dan y polisi hwn, mae'r Panel Gweithredol yn cael adroddiad cryno ynghylch y risgiau strategol o leiaf ddwywaith y flwyddyn, a rhwng yr adegau hynny mae Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod yn gallu gweld manylion llawn y gofrestr gyda'r swyddogion.
- 6 Mae'r Gofrestr Risgiau Strategol yn cofnodi lefelau risgiau yn y presennol a'r dyfodol os yw gwrth-fesurau arfaethedig wedi cael yr effaith y dymunir iddynt ei chael.

- 7 Mae'r lefelau risg yn seiliedig ar werthuso'r tebygolrwydd y gallai rhywbeth ddigwydd a'r canlyniadau petai hynny'n digwydd. Rhoddir disgrifiadau er gwybodaeth yn Atodiad 1.

GWYBODAETH

- 8 Mae'r swyddogion yn parhau i adolygu a diweddarau'r gofrestr risgiau, gan ychwanegu, dileu ac ail-sgorio risgiau fel y bo'n briodol. Rhoddir crynodeb o gofnodion y gofrestr gyfredol yn Atodiad 2.

GOBLYGIADAU

Amcanion Llesiant	Mae cynnal y gofrestr a chymryd camau i reoli'r risg yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd amcanion llesiant yr Awdurdod yn cael eu cyflawni.
Cyllideb	Mae cynnal y gofrestr yn gymorth i flaenoriaethu penderfyniadau gwariant a fyddai'n gostwng y lefelau risg.
Cyfreithiol	Mae cynnal y gofrestr yn gymorth i sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â deddfau sy'n diffinio ei swyddogaethau a sut mae'n gweithredu.
Staffio	Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau.
Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg	Ni chanfuwyd unrhyw oblygiadau.
Risgiau	Gallai'r Awdurdod fod yn agored i niwed petai'r gofrestr yn cael ei rhyddhau drwy ddamwain.

Dadansoddi'r risgiau


TEBYGOL- RWYDD	5 Bron yn sicr	5	10	15	20	25
	4 Tebygol	4	8	12	16	20
	3 Posibl	3	6	9	12	15
	2 Annhebygol	2	4	6	8	10
	1 Annhebygol iawn	1	2	3	4	5
		1 Dibwys	2 Mân	3 Cymedrol	4 Arwyddocaol	5 Mawr
		CANLYNIAD				

Graddfa blaenoriaeth risgiau

Gwerth	Graddfa blaenoriaeth
20-25	Uchel iawn – risg yn annioddefol o uchel
12-16	Uchel – risg yn sylweddol
8-10	Uchel canolig – risg yn gymedrol
4-6	Isel canolig – risg ddim yn rhy ddrwg
1-3	Isel

Y Gofrestr Risgiau Strategol ar 22/10/2018

- I. Mae'r siart isod yn dangos y lefelau a briodolir nawr ac yn y dyfodol i risgiau strategol hysbys sy'n wynebu'r Awdurdod.



II. Risg uchel iawn

Canfuwyd bod pedwar risg yn golygu risg uchel iawn i'r Awdurdod. Mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- methu â sicrhau digon o adnoddau gweithredol.
- dim digon o arian neu adnoddau i ddarparu gwasanaethau craidd neu i gynnal systemau risg-gritigol;
- risg o ymosodiad ar systemau cyfrifiadurol y Gwasanaeth;
- lefel cadernid y Gwasanaeth petai, yn sydyn, yn colli aelod o'r staff sydd â gwybodaeth arbenigol a/neu brofiad o fusnes GTAGC;

Drwy gynllunio gwrth-fesurau, rhagwelir y bydd y rhain i gyd yn gostwng i risg uchel.

III. Risg uchel

Canfuwyd bod naw risg yn golygu risg uchel i'r Awdurdod. Yn gryno, heb unrhyw drefn arbennig, mae'r rhain yn ymwneud â:

- camddefnyddio adnoddau yn derfysgol a/neu'n droseddol;
- lleihad annisgwyl (yn barhaol neu'n lled-barhaol) yn y staff, gan effeithio ar y gallu i ymateb mewn argyfwng;
- effaith newidiadau yn nhrefniadau llywodraethu ATAAu yng Nghymru;

- gallu'r Gwasanaeth i ymdrin â beichiau ychwanegol (a roddir o'r tu allan);
- rheolaeth aneffeithiol ar wybodaeth y gweithlu;
- posibilrwydd o dorri'r gyfraith mewn perthynas â data personol ar ôl dyfodiad GDPR;
- tarfu ar berthnasoedd a sefydlwyd â phartneriaid mewn llywodraeth leol;
- pwysigrwydd cael gweithlu ffit ac iach i ddarparu gwasanaethau;
- cynnal y gallu i ddarparu gwybodaeth am risgiau i staff gweithredol mewn modd electronig.

Drwy gynllunio gwrth-fesurau, rhagwelir y bydd tri ohonynt yn aros ar y lefel risg uchel, bydd tri ohonynt yn mynd i lawr i lefel canolig uchel, bydd dau ohonynt yn mynd i lawr i lefel canolig isel a bydd un ohonynt yn cael ei ail-gategoreiddio'n risg lefel isel.

IV. Risg canolig uchel

Hefyd, canfuwyd wyth risg canolig uchel. Yn gryno, a heb fod mewn unrhyw drefn arbennig, mae'r rhain yn ymwneud â: bod yn aneffeithiol neu ddiffygiol wrth wneud penderfyniadau ar lefel yr Awdurdod; anaf difrifol i aelod o'r staff tra mae yn y gwaith; oedi yn y prosiect cysylltiadau cenedlaethol arfaethedig; dim digon o arian grant i barhau i gynnal gweithgareddau atal tân; tarfu ar waith prynu o ganlyniad i Brexit; y risgiau sydd ynghlwm wrth arallgyfeirio gwasanaethau a chymryd rhan mewn prosiectau partneriaethol; cyfathrebu corfforaethol aneffeithiol a chynnal cysondeb gweithredol gyda Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yn y Deyrnas Unedig.

Drwy gynllunio gwrth-fesurau, rhagwelir y byddai pedwar yn aros ar y lefel risg canolig uchel, a byddai pedwar yn mynd i lawr i risg canolig isel.

V. Risg canolig isel:

Canfuwyd bod pedwar risg yn golygu lefel risg canolig isel. Mae'r rhain yn ymwneud â:

- cael system gwybodaeth reoli newydd
- effeithiau posibl y datblygiad mawr yn Ynys Môn (Wylfa Newydd);
- methu â rhagweld neu fynd i'r afael â phroblemau mewn da bryd;
- yr effaith ar ddarparu gwasanaethau o ganlyniad i streic neu weithredu diwydiannol a drefnwyd.

Drwy gynllunio gwrth-fesurau, byddai dau risg yn aros ar y lefel risg canolig isel a byddai dau ohonynt yn mynd i lawr i lefel isel.